

Bwrdd Pensiwn RhCT CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

Cofnodion cyfarfod rhithwir Bwrdd Pensiwn RhCT a gynhaliwyd ddydd Mercher, 20 Ionawr 2021 am 10.00am.

Bwrdd Pensiwn RhCT - Aelodau yn bresennol: -

Yr Athro Hugh Coombs, Cynrychiolydd y Cyflogwyr (Prifysgol De Cymru) a Chadeirydd
Bwrdd Pensiwn Rhondda Cynon Taf
Angela Pring - Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)
Rob Whiles - Cynrychiolydd yr Aelodau (gweithredol/wedi'u gohirio)
David Francis - Cynrychiolydd Cyflogwyr y Bwrdd Pensiwn (Coleg y Cymoedd)

Swyddogion yn bresennol:-

Mr I Traylor, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion
Ms Y Keitch, Uwch Gyfrifydd - Pensiynau a Rheoli'r Trysorlys

82 DATGANIAD O FUDDIANT / GWRTHDARO BUDDIANNAU / CYFRINACHEDD

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda. Cadarnhawyd cyfrinachedd y drafodaeth.

83 COFNODION CYFARFOD BWRDD PENSIWN RHCT A CHOFNODION CYFARFOD PWYLLGOR Y GRONFA BENSIWN

Cafodd cofnodion cyfarfod Bwrdd Pensiwn RhCT ar 3 Tachwedd 2020 eu **CYMERADWYO** yn rhai cywir.

84 MATERION SY'N CODI

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Pensiynau, Caffael a Thrafodion y diweddariadau canlynol i Aelodau'r Bwrdd yn deillio o gofnodion y cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020:

Cofnod 74

- a) Cofnod 40 - Dywedwyd wrth yr aelodau bod y cyfarfod a gynlluniwyd gyda Chadeirydd y Bwrdd Pensiwn mewn perthynas â materion archwilio mewnol wedi cael ei adrodd i'r Pwyllgor Pensiwn, a oedd yn fodlon ar y gwahoddiad hwn ac yn deall yr oedi yn y maes hwn oherwydd y pandemig.
- b) Cofnod 50 - Holodd yr aelodau a oedd unrhyw faterion dilynol o ran proses 2019/20 mewn perthynas â Therfynau Treth Lwfans Pensiynau. Soniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y broses a gyflwynwyd gyda gohebiaeth a anfonwyd i'w chwblhau ar gyfer blwyddyn dreth 2019/20 ar gyfer cyflwyno ffurflenni treth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod staff yn y tîm yn cefnogi swyddogion ar hyn o bryd, fodd bynnag **ategodd** nad oedd staff yn gallu rhoi cyngor ar y ffurflenni.
- c) Cofnod 52 - Holodd yr aelodau a gafwyd unrhyw adborth yn dilyn yr Arolwg Llywodraethu Blyneddol a chadarnhaodd swyddogion nad oedd unrhyw wybodaeth wedi'i darparu hyd yma. Nodwyd bod Cadeirydd y Bwrdd wedi derbyn gohebiaeth yn trafod lansio'r arolwg nesaf.

Cofnod 75

- a) Prisiad Diwedd Blwyddyn 2019 - Holwyd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am sefyllfa bresennol yr ymarfer prasio GAD a ph'un a oedd y prisiad yn dal i fod heb ei dalu. Dywedwyd wrth yr aelodau bod swyddogion wedi cwblhau'r ymarfer casglu data ac wedi cyflwyno'r ffurflen i GAD yn ôl yr angen.

Cofnod 78

- b) Fframwaith Gwybodaeth a Dealltwriaeth - Diolchodd y Cadeirydd i Aelodau'r Bwrdd am ei ddarparu manylion eu cofnodion hyfforddiant. Holodd aelodau'r Bwrdd am y Fforwm Cyfathrebu a dywedwyd wrthynt y byddai hyn yn digwydd tua diwedd mis Chwefror neu ddechrau mis Mawrth.

Cofnod 80

- a) Taliadau ymadael - Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth nad oedd yn ymwybodol o unrhyw ymatebion a gyflwynwyd yn uniongyrchol gan gyflogwyr y gronfa i'r ymgynghoriad ar ddeddfwriaeth y cynllun.

Cofnod 81

- a) Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau y byddai'r cyfarfod ar 22 Mawrth yn cael ei ddwyn ymlaen fel Cyd-gyfarfod rhwng y Bwrdd Pensiwn a'r Pwyllgor Pensiwn. Awgrymwyd y dylid bwrw ymlaen â chyfarfod nesaf y Bwrdd yn ystod Ebrill 2021.

Pwyntiau Gweithredu o'r cyfarfod ar 3 Tachwedd 2020:

- a) Pwynt Gweithredu 72 - dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai'n gwirio'r manylion ac yn egluro'r sefyllfa bresennol i'r Bwrdd.
- b) Pwynt Gweithredu 73 - Rhoddwyd diweddariad mewn perthynas â'r 2 brentis i'r Bwrdd. Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylwadau ar bwysigrwyd 'tyfu talent eich hun' a datblygu'r tîm.
- c) Pwynt Gweithredu 74 - Cadarnhawyd bod y ffigurau wedi'u cylchredeg a dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth nad oedd cymhariaeth sylweddol i'w gwneud ar hyn o bryd, yng ngoleuni'r pandemig. Holodd un Aelod a fyddai manylion ar draws holl Gronfeydd LGPS yn cael eu derbyn gan Fwrdd Cynghori'r Cynllun a dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth nad oes unrhyw beth wedi'i ddarparu hyd yma. Ychwanegodd na chafwyd datganiad ffurfiol i ddweud y byddai'r cynnwys cyfun hwn yn cael ei rannu, er y gobaith oedd y byddai'r canlyniadau'n cael eu cylchredeg.
- d) Pwynt gweithredu 76 - Cafodd dogfen gwmpasu gwybodaeth mewn perthynas â'r 'Astudiaeth Adolygu Asedau' ei rhannu gyda'r Bwrdd.
- e) Pwynt Gweithredu 77 - Cyhoeddwyd manylion ac ni chafwyd unrhyw adborth.

Cofnodion Pwyllgor Cronfa Bensiwn RhCT 13 Hydref 2020:

- a) Cofnod 10 - Holodd yr aelodau a oedd yr holl Awdurdodau Lleol eraill wedi cytuno i gefnogi'r trawsnewidiad i'r cynnyrch 'Global Alpha Paris Aligned'. Cadarnhaodd yr Uwch Gyfrifydd fod pawb wedi cytuno a bod proses diwydrwydd dyladwy bellach yn cael ei chynnal ar y cynnyrch.
- b) Cofnod 11 - Cytunodd yr aelodau â'r datganiad gan y Pwyllgor, gan nodi bod gan Gronfa Rhondda Cynon Taf un o'r costau buddsoddi isaf a lefelau perfformiad uchel.
- c) Cofnod 12 - Gwnaeth aelod sylwadau ar yr oedran pensiwn gwladol

cynyddol a thrafododd y Bwrdd sut yr oedd angen monitro hyn a'r effaith y gallai hyn ei chael ar y cynllun pensiwn wrth symud ymlaen.

Diwrnod Ymgysylltu â Chadeiryddion y Bwrdd Pensiwn - 15 Medi 2020.

Cyfeiriodd y Cadeirydd Aelodau'r Bwrdd at gofnodion drafft y cyfarfod uchod y gofynnodd iddyn nhw gael eu cynnwys ar yr agenda i helpu gyda thryloywder prosesau llywodraethu. Rhoddodd y Cadeirydd grynodedb cyflym mewn perthynas â'r cyfarfod, gan gynghori ei fod yn gyfarfod cynhyrchiol a gwnaeth sylwadau ar y gwelliannau adrodd ar berfformiad. Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylwadau cadarnhaol ar y cyfarfod, a chynnwys y cofnodion ym mhecyn agenda'r Bwrdd Lleol, gan ychwanegu ei fod yn enghraifft o ymgysylltu effeithiol rhwng Partneriaeth Pensiynau Cymru a Byrddau, gyda'r arfer da hwn o rannu cofnodion yn yr arfaeth i barhau yn y dyfodol yng nghyfarfodydd Bwrdd Pensiwn RCT.

- a) Eitem 1 - Eglurwyd na ddylid fod wedi cyfeirio at HC yn y cofnodion drafft fel rhywun sydd â rôl gydlyn.
- b) Cytunwyd y byddai'r Cadeirydd yn cynghori ar yr arfer o gylchredeg cofnodion drafft cyfarfod ymgysylltu Cadeiryddion y Bwrdd Pensiwn â Partneriaeth Pensiynau Cymru i Fwrdd Pensiwn RCT ar ddiwrnod ymgysylltu nesaf y Cadeiryddion fel math o arfer da ym mis Ebrill.

Pwyllgor Cyd-lywodraethu Partneriaeth Pensiynau Cymru Gyfan - 10 Rhagfyr 2020.

Dywedwyd wrth yr aelodau bod y brif eitem ar yr agenda i'w thrafod yn ymwneud â'r adolygiad chwarterol o'r Gofrestr Risg a throsolwg byr o'r trafodaethau sy'n ymwneud â Chynrychiolaeth Aelodau'r Cynllun - ymestyn aelodaeth i rôl 'arsylwr' di-bleidlais. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ddiweddariad i'r Bwrdd ar arsylwadau RhCT mewn perthynas â 'Chynrychiolaeth Aelodau'r Cynllun'. Nododd fod diffyg eglurder ynghylch y ffordd orau o gyflawni cynrychiolaeth briodol ac roedd yn ffafrio model ymgysylltu ehangach. Dywedwyd wrth yr aelodau bod trafodaethau pellach yn cael eu cynnal ar y mater hwn.

- a) Holodd Aelod sut y byddai'r penodiad yn cael ei gadarnhau a dywedodd yr Uwch Gyfrifydd y byddai angen iddo fynd at bob Pwyllgor Pensiwn Awdurdod a Chyngor llawn.
- b) Gwnaeth yr aelodau sylwadau yn gadarnhaol ar Bartneriaeth Pensiynau Cymru yn ennill Gwobr Arloesi Buddsoddi LAPF 2020.
- c) Holodd yr aelodau sut y byddai unrhyw newidiadau i bolisi yn cael eu symud ymlaen a dywedwyd wrthynt y byddai angen adolygu newidiadau polisi yn flynyddol yn ôl yr angen.
- d) Gwnaeth yr aelodau sylwadau ar yr adroddiadau perfformiad a thynnu sylw at y ffaith bod ambell un yn dangos tangyflawni yr oedd yr Aelodau yn ei feio ar y pandemig. Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd y gallai hyn fod yn ddibynnol ar amodau'r farchnad.

85

PANEL YMGYNGHORI - BUDDSODDI A GWEINYDDU

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth a'r Uwch Gyfrifydd drosolwg i'r Aelodau o gyfarfod Panel Cynghori Buddsoddi a Gweinyddu Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2020.

Cyfeiriodd at adroddiad buddsoddi y Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau digidol, a dywedwyd wrth yr Aelodau fod gwerth cyffredinol y

Gronfa wedi cynyddu o £3,905 miliwn (30 Mehefin 2020) i £4,040 miliwn (30 Medi 2020), gydag enillion cyffredinol y Gronfa Bensiwn am y chwarter yn diweddu 30 Medi 2020 ar 3.5% o flaen meincnod cynllun o 1.6%. Amlygwyd i'r Aelodau fod dros 65% o asedau'r Gronfa wedi'u buddsoddi gyda Phartneriaeth Pensiynau Cymru a bod perfformiad rhagorol y Gronfa dros y tymor canolig wedi bod o fudd ariannol i'r cyflogwyr.

O ran y ffigurau perfformiad ar gyfer rheolwyr gweithredol, roedd CBRE (Eiddo) wedi tanberfformio a phriodolwyd hyn i'r pandemig. Nodwyd problem gyda chofnodi data Twf Byd-eang er bod hyn bellach wedi'i unioni.

Darparwyd manylion y cyflwyniad gan Fidelity International gan gynnwys manylion dyraniad y Gronfa o 18% i Fondiau'r Llywodraeth, gyda'r buddsoddiad hwn yn cael ei ddefnyddio at ddibenion hylifedd yn hytrach na dal arian parod, gan roi cyfle i edrych ar y farchnad o ran bondiau. Dywedwyd wrth y Panel bod y swyddi hyn am gael eu monitro.

Darparwyd manylion y cyflwyniad gan CBRE i'r Bwrdd cyn i'r Swyddogion roi'r wybodaeth ddiweddaraf mewn perthynas â Chofrestr Risg y Gronfa Bensiwn. Gwnaeth yr aelodau sylwadau ar y Potensial ar gyfer 'Llif Arian Negatif' a oedd wedi'i ddiwygio yn y gofrestr risg, a gofyn a oedd hyn i'w ddisgwyl. Gwnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylwadau ar y mater posib wrth i'r Gronfa aeddfedu, gan arwain at ddod â gostyngiadau mewn cyfraniadau i'r Gronfa. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth nad oedd hwn yn destun pryder i RCT, oherwydd, er ei fod wedi'i gofnodi yn y gofrestr risg, roedd cyfleoedd cynhyrchu incwm ar waith i liniaru'r risg. Holodd y Cadeirydd am y gyllideb amcanestyniad llif arian a chytunwyd y byddai hyn yn cael ei rannu gydag Aelodau'r Bwrdd.

Gwnaeth yr aelodau sylwadau ar ddiffyg cyflawniad Pzena a gwnaeth yr Uwch Gyfrifydd sylwadau ar wahanol arddulliau rheolwr y gronfa werth yr oedd eu hangen i gyd-fynd â'r rheolwyr twf yn yr is-gronfa honno. Hyd yma roedd y rheolwyr twf wedi perfformio'n well na rheolwr y gronfa werthoedd. Dywedodd swyddogion y dylai Pzena ddechrau gwella ar ei berfformiad yn ystod y chwarter nesaf hwn gan fod ei arddull yn gweddu marchnadoedd cyfnewidiol.

Parhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth â'r diweddariad trwy gynghori ar y materion gweinyddol allweddol sy'n wynebu'r Gronfa, gan hysbysu'r Aelodau na adroddwyd am unrhyw daliadau hwyr na thoriadau posibl ar gyfer y cyfnod hwn. Atgoffwyd yr aelodau bod yr archwiliad mewnol wedi'i drefnu cyn diwedd y flwyddyn ariannol mewn perthynas â'r 'risgiau llywodraethu a gweinyddu mewn cynlluniau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus: adroddiad ymgysylltu'.

Gwnaeth yr aelodau sylwadau ar botensial cyfarfodydd hybrid yn y dyfodol a siaradodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth am y presenoldeb gwell gan Uwch Swyddogion Cyflogwyr yn y CCB rhithwir.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn wedi ei gyhoeddi cyn y dyddiad cyhoeddi statudol o 2 Rhagfyr ac roedd y cyfrifon llawn wedi'u cadarnhau yn y Cyngor ar 25 Tachwedd, 2020. Holodd yr aelodau a oedd yr adroddiad ar gael ar y wefan a chadarnhaodd swyddogion fod hynny'n gywir. Dywedwyd wrth yr aelodau bod copi hefyd wedi'i gylchredeg i Fwrdd Cynghori'r Cynllun gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth gan ychwanegu y byddai'r Gwasanaeth yn y dyfodol yn ceisio cynhyrchu a rhannu copi o'r adroddiad cyn neu yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

Tynnwyd sylw aelodau at y safonau gwasanaeth allweddol a nodwyd yng nghofnodion y panel. Dywedwyd wrth yr aelodau bod rhywfaint o lithriad bach mewn perfformiad yn erbyn y targedau ond roedd hyn yn fach iawn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, oherwydd y pandemig COVID-19, ei bod wedi bod yn flwyddyn heriol a bod y gwasanaeth yn gweithio'n galed i sicrhau bod safonau gwasanaeth yn cael eu cynnal. Nododd yr aelodau sylwadau'r Panel mewn perthynas â safonau a lefel y gweithgaredd er gwaethaf yr amgylchiadau heriol a'r pwysau deddfwriaethol esblygol, ac adleision nhw'r ardystiadau hyn.

O ran y broses Datrys Anghydfod Mewnol eglurodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod nifer yr apeliadau Cronfa/Cyflogwr yn parhau i fod yn isel iawn ac nad oedd unrhyw dueddiadau na phryderon i'w riportio o ganlyniad i'r achosion hyn.

Parhaodd yr Uwch Gyfrifydd â'r diweddariad trwy gynghori bod y Pwyllgor Pensiwn yn cefnogi symud portffolio alffa uchel cyfredol Baillie Gifford yn yr is-gronfa Twf Byd-eang i'w Gynnyrch 'Paris Aligned'. Nodwyd hefyd nad oedd yr holl Awdurdodau Cyfansoddiadol sydd eto'n buddsoddi ym mhortffolio alffa uchel Baillie Gifford (is-gronfa Twf Byd-eang) wedi cytuno ar y symudiad i'r Cynnyrch 'Paris Aligned'.

O ran yr adolygiad atebolrwydd asedau, gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw ddiweddariad ar gael. Dywedodd swyddogion fod y modelu wedi cychwyn a gofynnwyd am ddadansoddiad pellach o opsiynau erbyn diwedd mis Chwefror. Cynigiwyd y byddai'r wybodaeth yn cael ei chyflwyno yng nghyfarfod y Panel Buddsoddi a'r Pwyllgor Pensiwn i'w chymeradwyo.

Trafododd yr aelodau ymhellach yr adolygiad a'r cystrawennau portffolio a'r effaith y byddai'r portffolios hyn yn ei chael ar y gyfradd ddisgownt. Dywedwyd wrth yr aelodau y byddai angen i hyn fynd yn ôl i'w gymeradwyo bob tro y byddai cyfran yn cael ei newid. Ychwanegodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth mai gwaith mireinio oedd hyn yn hytrach nag unrhyw newid sylfaenol i'r strategaeth, gan ychwanegu mai strategaeth hirdymor oedd hon, sy'n edrych ar gyfeiriad teithio a cheisio lleihau'r risg o ddod i gysylltiad ag ecwiti o ystyried y gwelliant yn lefel ariannu gyffredinol y Gronfa.

Yn dilyn trafodaeth, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r diweddariad.

86

MONITRO RISG

Cyflwynodd y swyddogion y Gofrestr Monitro Risg i'r Aelodau ac awgrymwyd y dylid ychwanegu'r geiriad canlynol mewn perthynas â'r naratif ar gyfer 'Llif Arian Negatif' posibl "*ac addasu'r strategaeth asedau yn ôl yr angen*".

Holodd yr aelodau am y sefyllfa gydag achos McCloud mewn perthynas â'r risg buddsoddi Tymor Hir a chynghorodd swyddogion y byddai hyn yn cael ei adlewyrchu yn y chwarter nesaf lle byddai mwy o wybodaeth ar gael wrth symud ymlaen, gan ddarparu manylion penodol pellach gyda'r hyn sy'n mynd i ddigwydd - cyfeirir at hyn o dan ran weithredol y gofrestr.

O ran y risg Llywodraethu, trafododd yr Aelodau yr angen i'r geiriad gael ei ddiweddarau ac awgrymwyd y dylid ychwanegu'r 'diwrnod Ymgysylltu â Chadeiryddion - diweddariadau ac adborth' yn y cyd-destun.

Trafododd yr aelodau risg trychineb Gweithredol (tân / llifogydd, ac ati) a chynhigiwyd y dylid ychwanegu'r geiriad 'a'i brofi' yn y naratif lliniaru rheolaeth.

Dywedodd yr aelodau efallai bod angen diweddarau geiriad risg Partneriaeth

Pensiynau Cymru gan fod y Gronfa bellach wedi'i sefydlu.

Yn dilyn trafod, PENDERFYNODD yr Aelodau nodi'r adroddiad.

87 CYDGYFRANNU CYMRU GYFAN

Roedd yr aelodau'n hyderus bod yr eitem hon wedi'i chynnwys yn y diweddariadau blaenorol ar yr agenda, er bod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wedi cael ei holi am drefniadau cyfarfod y Gweithgor Swyddogion. Dywedodd yr Uwch Gyfrifydd fod y grŵp yn cyfarfod bob chwarter o leiaf, gydag ymarferwyr yn cyfarfod bob mis gyda llawer o rannu arfer da.

CYTUNWYD y dylid ychwanegu'r cyfarfod hwn at y gofrestr risg fel math o arfer da ar gyfer gwella a chysondeb gan gyfrannu fel y mae at y trefniadau llywodraethu cyffredinol ar gyfer Partneriaeth Pensiynau Cymru.

88 FFRAMWAITH GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH

Trafododd yr aelodau y fframwaith gwybodaeth a hyfforddiant a chadarnhau eu presenoldeb mewn digwyddiadau yn y dyfodol:

- 26 (LGA) Ionawr 2021
- 22 (BW) Chwefror 2021
- 24 (WPP) Chwefror 2021

Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau o'r arfer da o rannu sleidiau ar ôl mynychu digwyddiadau hyfforddi o'r fath.

PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.

89 LLYWODRAETHU - DIWEDDARIAD O RAN COVID

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth nad oedd ganddo unrhyw faterion newydd i'w codi mewn perthynas â'r diweddariad gan ychwanegu, fel y trafodwyd yn flaenorol gan y Bwrdd, bod effaith COVID 19 ar barhad a gweithrediad busnes yn cael ei reoli'n effeithiol. Ychwanegodd fod y Gwasanaeth yn dal i gynnal gweithgaredd craidd, o amgylch y taliadau prosesu, a chyhoeddi pecynnau pensiwn, er bod hynny trwy broses wahanol a rhoddodd fanylion y Systemau newydd i'r Aelodau. Sicraodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Bwrdd fod llawer o weithgaredd cadarnhaol ac ychydig iawn o effaith ar safonau gwasanaeth allweddol.

PENDERFYNWYD nodi'r diweddariad.

90 MATERION DEDDFWRIAETHOL A GWEINYDDOL

McCloud

Dywedodd swyddogion ei bod yn anodd darparu diweddariad clir mewn perthynas ag achos McCloud ac roeddent yn rhagweld diweddariad pellach mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Taliadau Ymadael

Dywedodd swyddogion fod rheolaethau taliadau ymadael wedi'u rhoi ar waith ond nad oes diweddariad pellach wedi'i ddarparu gan y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol. Gofynnwyd a oedd y newidiadau ar lefel cynllun yn mynd i gael eu gwthio ymlaen. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth yr hoffai weld newidiadau i'r cynigion yn cael eu gwneud yn unol ag adborth y Gronfa ar yr ymgynghoriad.

Dywedwyd wrth yr aelodau am reoliadau ymadael y Trysorlys sydd mewn grym

ac sy'n destun Adolygiad Barnwrol. Fodd bynnag, cadarnhaodd swyddogion fod y rheoliadau yn dal mewn grym ac nad oeddent wedi'u gohirio.

Holodd Aelod pryd roedd sesiwn nesaf y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn cael ei chynnal mewn perthynas â McCloud, a'r Cyfarwyddwr Gwasanaeth cytunwyd i rannu manylion maes o law.

Siaradodd yr aelodau am ymateb ymgynghoriad y Gronfa a gyflwynwyd mewn perthynas â thaliadau ymadael, gan nodi nad oedd rhai agweddau ar y papur ymgynghori gwreiddiol yn adlewyrchu'r bwriad gwreiddiol.

Cytunodd yr Aelodau i nodi'r diweddariad.

91 **CYFRIFON CRONFA 2020/21**

Cafodd yr Aelodau gopi o Gyfrifon y Gronfa 2020/21, sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Rhondda Cynon Taf ar 31 Mawrth 2020 a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn.

Cyfeiriodd yr aelodau at y costau rheoli a dalwyd gan y Gronfa yn 2019/20 a gwnaethant sylwadau ar y cynnydd yng nghost rheolwr buddsoddi a dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod hyn oddeutu 25%, a oedd yn fach o ran maint cyffredinol y gronfa.

Trafododd yr aelodau y 'Broses Rheoli Costau' a'r potensial ar gyfer gwahaniaethu. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod problem bosibl o ran cydraddoli GMP. Trafododd yr aelodau yr elfen werthuso a holi pwy oedd yn bwrw ymlaen â'r costau mewn perthynas â'r gwerthusiad hwn. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y gallai hyn ddisgyn yn ôl i gronfeydd pensiynau ar ffurf cynnydd mewn atebolrwydd.

Cyfeiriodd un Aelod at oblygiad cost McCloud dros gyfrifon y blynyddoedd blaenorol a dywedwyd fod darpariaeth wedi'i gwneud yn barod.

Yn dilyn y trafodaethau, **PENDERFYNWYD** nodi cyfrifon y Gronfa 2020/21.

92 **UNRHYW FATERION ERAILL**

Dywedwyd wrth yr aelodau am yr e-bost a gylchredwyd trwy Unsain mewn perthynas â phryderon Brexit a'r newidiadau a allai effeithio ar gronfeydd. Rhoddodd yr Uwch Gyfrifydd drosolwg i'r Aelodau o'r camau a gymerwyd gan reolwyr y gronfa i helpu i liniaru unrhyw effaith bosibl. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod problemau gyda rhai banciau yn y DU yn cau cyfrifon preswylwyr y tu allan i'r DU. Mae'r Gwasanaeth yn ystyried opsiynau i gefnogi talu buddion pensiwn i bensiynwyr tramor.

Gwnaeth y Cadeirydd sylwadau ar gydnabod dyfarniad buddsoddiad arloesol Partneriaeth Pensiynau Cymru.

Nododd yr aelodau fod y gwasanaeth 'Dywedwch wrthym Unwaith' wedi cael enwebiad yn ddiweddar am wobr am sicrhau gwasanaeth i 100% o'r boblogaeth yng Nghymru a Lloegr fel bod gan bob dinesydd yn y gwledydd hynny fynediad i'r gwasanaeth.

Cyfeiriwyd at arolwg Aon IT a holodd yr Aelodau p'un a ddarparwyd ymateb. Nodwyd bod sleidiau'r hyfforddiant wedi'u cylchredeg ond nad oedd swyddogion

wedi gweld yr arolwg eto. Cytunodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth i adolygu.

Gofynnodd yr aelodau a ellid darparu calendr o gyfarfodydd i gynorthwyo Aelodau wrth symud ymlaen. Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod angen i gyfarfodydd y Gronfa Bensiwn alinio'n agos â dyddiadau'r Pwyllgor Pensiwn, a fyddai'n cael eu gosod yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y Cyngor. Ychwanegwyd y gellid darparu rhai dyddiadau posib. Wrth symud ymlaen cytunwyd y bydd cyfarfod nesaf y Gronfa yn bwrw ymlaen ddiwedd mis Ebrill.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Aelodau a'r swyddogion am eu cyfraniadau i'r cyfarfod a **PHENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarperir.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.20pm

**MR H. COOMBS
CADEIRYDD.**